

PWYLLGOR	PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
DYDDIAD:	10 MEDI 2018
TEITL:	FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19
PWRPAS:	CYMERADWYO FFFIOEDD ARFAETHEDIG AR GYFER EU GWEITHREDU O 1AF O HYDREF 2018
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

- 1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 11eg o Fehefin 2018 hon fe gofiwch i argymhelliad i godi ffioedd trwyddedau tacsis gael eu codi er mwyn sicrhau fod costau sydd ynghlwm a gweinyddiaeth y trwyddedau hyn yn cael eu hadennill, yn llawn. Gweler y tabl yn atodiad 1 i'r adroddiad hwn am fanylion llawn y ffioedd arfaethedig.
- 1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei ffioedd mewn perthynas â Thrwyddedu tacsis (h.y. trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr hurio preifat a gyrwyr) yn rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor hwn ar 24 Mehefin 2013 y byddai ffioedd tacsis yn cael eu hadolygu yn flynyddol.
- 1.3 Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol; ac er mwyn adennill y costau yn llawn rhaid cynyddu'r ffioedd o gyfartaledd o 28%

2. YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT

- 2.1 Roedd penderfyniad y Pwyllgor hwn ym mis Mehefin i gymeradwyo cynyddu ffioedd trwyddedau tacsis yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn unol â'r gofynion statudol.
- 2.2 Mae'r diwydiant wedi derbyn llythyr yn amlinellu'r newidiadau yn y ffioedd, a'r rhesymau dros godi'r ffioedd; er mwyn caniatáu digon o gyfle i amlygu unrhyw bryderon am y cynnydd mewn ffioedd (gweler atodiad 2) . Yn unol ag Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 mae rhybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd wedi ymddangos yn y wasg leol ar Yr 2il o Awst. Mae amserlen benodol wedi ei dilyn ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac ni fydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn dod i rym hyd nes y bydd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol wedi ei ystyried y gan y Pwyllgor hwn.
- 2.3 Mae'r rhybudd a roddwyd yn y wasg (gweler atodiad 3) yn cynnwys y dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, dim cynt na 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol tan y 1af o Hydref 2018; os ceir penderfyniad terfynol i gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn.
- 2.4 Roedd y 28 diwrnod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar y 30 o Awst; ac fe ellir cadarnhau nad oes unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau ysgrifenedig wedi dod i law. Mae un cwmni lleol wedi crybwyll mewn e bost y byddai yn syniad adolygu'r prisiau mae'r

diwydiant yn gallu ei godi ar gwsmeriaid. Mae hyn yn bwynt ddigon teg; gan nad oes cais wedi bod i adolygu'r hyn mae'r diwydiant yn gallu codi ar gwsmeriaid ers rhai blynyddoedd. Mae proses a threfn statudol ar gyfer codi prisiau; ac mae angen cais ysgrifenedig gan gynrychiolydd o'r diwydiant er mwyn cychwyn y broses yn ffurfiol.

ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo yn derfynol y cynnig i godi'r ffioedd yn weithredol o'r 1af o Hydref 2018, i'r lefel a argymhellir; yn unol â'r drefn a amlinellwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.